2. Brwsio'r corff

Datblygu sgiliau:
- **darganfod a dysgu am eu corff**
- **archwilio ac arbrofi**
- **gwneud dewisiadau a chyfleu hoff bethau**
- **gwneud cysylltiadau â'r byd**

Beth sydd yn y blwch?

- **Amrywiaeth o 5 brws â gwahanol wead**

E.e. brws paent, brws colur, brws poteli ac ati.

Cyflwyno'r cefndir

- Dewiswch amser priodol i chwarae,pan fydd eich plentyn yn effro, yn gyfforddus ac yn fodlon.
- Sefydlwch drefn benodol – gallai gormod o symbylu ddrysu eich plentyn.
- Ailadroddwch yr un gweithgaredd sawl gwaith gan y bydd yn helpu eich plentyn i gadw'r sgiliau a ddysgwyd.
- Siaradwch am yr hyn yr ydych chi a'ch plentyn yn ei wneud.
- Ewch ar gyflymder y plentyn – rhowch amser iddynt archwilio a darganfod.
- Ceisiwch sicrhau na fydd unrhyw beth yn torri ar eich traws fel y gallwch chi a'ch plentyn ganolbwyntio.
- **Yn anad dim – ymlaciwch, mwynhewch a sicrhewch eich bod yn cael hwyl gyda'ch gilydd.**

Gweithgareddau

- Brwsiwch gefn llaw eich plentyn yn ysgafn, sydd fel arfer yn llai sensitif na'u cledrau. Os bydd hyn yn ormod o hyd, rhowch gynnig ar ochr uchaf eu traed, neu ardaloedd eraill y mae'r plentyn yn fwy cyfforddus â hwy.
- Pan fydd eich plentyn wedi arfer â'r teimlad, brwsiwch gledrau eu llaw, gyda phob bys yn symud ar wahân rhwng y bysedd.
- Amrywiwch y math o frws a ddefnyddiwch, brwsiwch yn gyflymach ac yn arafach gan ddefnyddio gwahanol bwysau.
- Brwsiwch rannau eraill o gorff eich plentyn yn arbennig cefn eu gwddf, eu bol, eu traed a'u cefn.
- Defnyddiwch symudiadau ysgafn; edrychwch ar ymatebion eich plentyn sy'n dangos eu bod yn ei hoffi, nad ydynt yn ei hoffi neu eu bod wedi cael digon – parchwch eu dewisiadau ac ymatebwch yn briodol.
- Trafodwch y rhannau o'r corff rydych yn eu defnyddio, gan gyfri'r bysedd a'r bysedd traed wrth i chi eu brwsio.

Y cam nesaf

Cyflwynwch gyfarpar newydd – er enghraifft

- plu (byddwch yn ymwybodol o alergeddau posibl)
- gwlân cotwm
- sbyngau meddal
- sgwrwyr sosbenni arian
- sgarffiau Sidan
- dail.

Birth to three matters

Plentyn cryf
- parchu dewisiadau
- ymwybyddiaeth gynyddol ohono'i hun
- adnabod nodweddion a dewisiadau personol.

Cyfathrebydd medrus
- archwilio, arbrofi, labelu a mynegi
- gwneud ymatebion chwareus a difrifol
- negodi a gwneud dewisiadau.

Dysgwr hyfedr
- archwilio a darganfod
- chwarae'n ddychmygus gyda deunyddiau gan ddefnyddio'r synhwyrau
- gwneud cysylltiadau drwy'r synhwyrau a symud.

Plentyn lach
- gallu mynegi teimladau
- darganfod a dysgu am ei gorff/chorff
- dangos dewisiadau unigol.

Cysylltiadau âr cyfnod sylfaen

Defnyddio a chymhwyso mathemateg
- defnyddio eu profiadau eu hunain o'r byd
- mae dysgu 'uniongyrcho' yn annog hyder wrth broffwydo canlyniadau.

Rhifau a thrin data
- mae arferion a phrofiadau bob dydd yn cynnwys y cysyniad o rif
- cyfri, rhoi mewn trefn, paru a dosbarthu.

Mesur
- trin gwrthrychau o wahanol faint a phwysau
- hyd – hir / byr, llydan / cul
- amser – strwythur ac arferion, a rhoi digwyddiadau mewn trefn.

Siâp a gofod
- archwilio a thrin amrywiaeth o siapiau
- ystum a defnyddio cyrff o fewn gofod.

Arsylwi ac asesu

- Os ydych yn gwneud y gweithgaredd hwn ar eich pen eich hun a bod angen i chi ddal y plentyn, defnyddiwch ddrych i weld ymatebion y plentyn.
- Defnyddiwch ffurflen syml i ddangos beth'y mae'r plentyn yn ei hoffi/beth nad yw'r plentyn yn ei hoffi.
- Anogwch y plant eraill i wylio am ymatebion. Bydd hyn o gymorth iddynt weld sut y gall eich plentyn gyfathrebu.
- Peidiwch o reidrwydd â diystyru'r eitemau nad yw'r plentyn fel petai'n eu hoffi. Gallwch eu hailgyflwyno yn gyflym yn ddiweddarach i weld a oes unrhyw newidiadau – wrth i'r plentyn ddod yn fwy cyfarwydd â'r brwsio efallai y byddant yn gallu goddef gwahanol weadau yn well.

Mae'r cardiau hyn yn ymwneud yn benodol â rhifedd a datblygiad mathemategol. Fodd bynnag, bydd y gweithgareddau hefyd yn ategu meysydd dysgu eraill

7953_2 Rhif Elusen Gofrestredig: 208231. © Scope Mai 2011

RNIB Cymru yn cefnogi pobl ddall ac â golwg rhannol
supporting blind and partially sighted people

scope cymru

Rhif Elusen Gofrestredig 226227